NASUWT CYMRU
The Teachers' Union
Undeb yr Athrawon

**NASUWT Cymru**
Clos Greenwood
Parc Busnes Porth Caerdydd
Caerdydd
CF23 8RD

Ffôn: 029 2054 6080
E-bost: rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk
Gwefan: www.nasuwt.org.uk

***Yr undeb athrawon mwyaf yng Nghymru***

16/07007 Cymru

NASUWT CYMRU
The Teachers' Union
Undeb yr Athrawon

# Rhoi Meddyginiaethau

health&safety
at work

*Yr undeb athrawon mwyaf yng Nghymru*

Mae’r daflen hon yn rhoi gwybodaeth a chyngor hanfodol ynglŷn â rhoi meddyginiaeth i ddisgyblion.

## Y rolau a’r cyfrifoldebau

Does dim gofyniad cyfreithiol i unrhyw athro nac athrawes roi meddyginiaeth i ddisgybl. Mae NASUWT yn cynghori ei aelodau i beidio rhoi meddyginiaeth.

Dylai ysgolion a cholegau gyflogi staff cymorth sydd â’r cymwysterau a’r hyfforddiant priodol i roi meddyginiaethau i ddisgyblion a/neu i sicrhau bod cymorth meddygol arbenigol, allanol priodol ar gael.

Dylai ysgolion a cholegau sicrhau’r trefniadau canlynol a mwy:

- bod y staff i gyd yn derbyn canllawiau ysgrifenedig clir am roi meddyginiaeth;
- bod staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant priodol;
- bod y meddyginiaethau i gyd yn cael eu cadw dan glo mewn cwpwrdd cyffuriau sydd wedi’i gymeradwyo’n briodol. Dylai bob meddyginiaeth fod mewn cynhwysydd ar wahân ac arno label glir yn nodi’r cynnwys, y dos, pa mor aml y dylid ei roi, hyd y cwrs, dyddiad y presgripsiwn ac enw’r disgybl;
- y cedwir cofnod manwl o roi’r feddyginiaeth a bod hwn yn cael ei ddiweddaru bob tro y rhoddir y cyffur ac yn cael ei gadw mewn lle dynodedig;
- ei bod hi’n hawdd cael gafael ar gyngor meddygol/gan nyrs cymwysedig pan fo’i angen;
- y gwneir asesiad risg o’r camau a gymerir a bod Cynllun Gofal Iechyd Unigol yn cael ei drefnu ar gyfer y disgybl; a
- bod indemniad priodol yn cael ei ddarparu i unrhyw aelod o staff sy’n rhan o’r broses o roi meddyginiaeth i ddisgybl.

## Ymweliadau addysgol

Os yw cyflwr meddygol disgybl yn achosi pryder, dylid ceisio cyngor gan ymarferydd meddygol ynglŷn â pha mor briodol fyddai hi i gymryd y disgybl allan o’r ysgol. Fodd bynnag, yr athro sy’n gyfrifol am y gweithgaredd sydd i wneud y penderfyniad terfynol. Os penderfynir y dylai’r disgybl gymryd rhan, bydd angen gwneud trefniadau cadarn i storio unrhyw feddyginiaeth a bydd angen cael cyfarwyddiadau a chanllawiau clir ynglŷn â rhoi’r feddyginiaeth.

## Rhoi meddyginiaeth fewnwthiol

Cyngor NASUWT yw na ellir gofyn i athro/athrawes roi neu wneud unrhyw broses feddygol fewnwthiol, er enghraifft rhoi Valium yn y rectwm, ac ni ddylent wirfoddoli i wneud hynny chwaith.

## Hunanddosio

Mae’n bwysig bod y rhiant/gwarcheidwad yn rhoi gwybod i’r ysgol os yw eu plentyn yn dioddef o unrhyw gyflwr penodol. Mae’n debygol y bydd disgyblion hŷn yn gallu rhoi eu meddyginiaeth eu hunain. Dylid gwneud pob penderfyniad am hunanddosio disgyblion mewn ymgynghoriad â’u rhiant/gwarcheidwad, fel y bo’n briodol. Mae’n hanfodol bod gan ysgolion a cholegau weithdrefn glir i’w dilyn mewn argyfwng os nad yw’r disgyblion yn gallu hunanddosio, a rhaid sicrhau bod y staff i gyd yn gwybod beth yw hi.

## Disgyblion sy’n ddibynnol ar dechnoleg

Mae’n rhagofyniad bod y disgyblion yma’n derbyn cymorth unigol gan nyrs gymwysedig sy’n gallu gofalu am eu hanghenion.

## Disgyblion gyda chyflyrau dwys

Mae rhai cyflyrau i’w cael a allai ddod i’r amlwg mewn amser byr iawn a rhoi’r disgybl mewn sefyllfa beryglus iawn a allai eu lladd, megis sioc anaffylactig oherwydd adwaith alergaidd. Dylai bod gan ysgolion a cholegau drefnau i’w dilyn mewn argyfwng i ymdrin â digwyddiadau o’r fath ac i ganfod y disgyblion a allai fod mewn perygl.

## Cyngor a chefnogaeth

I gael rhagor o gyngor a chefnogaeth, cysylltwch â’ch Cymdeithas Leol neu Ganolfan NASUWT Cymru.

Cewch y manylion cysylltu:

- ar wefan NASUWT ar www.nasuwt.org.uk;
- yn nyddiadur NASUWT; neu
- drwy ffonio 029 2054 6080.

## Gwybodaeth bellach

I gael arweiniad manylach, gwelwch Gylchlythyr 003/2010 Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol.